OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 3270 (Cy.308)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro (Clynderwen, Cilymaenllwyd a Henllanfallteg) 2002

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud - -* | *6 Rhagfyr 2002* |
| *Yn dod i rym yn unol ag Erthygl 1(2)* | |

Mae Comisiwn Ffiniau Llwyodraeth Leol Cymru wedi cyflwyno adroddiad dyddiedig Rhagfyr 2001 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 54(1) a 58(1) o Deddf Llywodraeth Leol 1972(**1**) ar ei adolygiad ar y rhan o'r ffin rhwng Siroedd Caerfyrddin a Phenfro yn ardal cymunedau Clynderwen a Gorllewin Llandysilio ynghyd â'r cynigion y mae wedi eu llunio amdani;

a chan fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi penderfynu rhoi eu heffaith i'r cynigion hyn gydag addasiadau ac effaith yr addasiadau yw cynnwys trosglwyddo'r tir a'r eiddo a elwir "Troed y Rhiw";

a bod mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i'r cynigion hynny gael eu gwneud;

yn awr mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac a freiniwyd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:—

(**1**) 1972 (p.70).
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).